# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 1 Hydref 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dystiolaeth empirig ac ymchwil wedi'i adolygu gan gyfoedion ar effaith brecwast am ddim mewn ysgolion. (WAQ56518)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2010***

Comisiynwyd Athrofa y Gymdeithas, Iechyd a Moeseg Caerdydd (CISHE) i gynnal gwerthusiad o'r Fenter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd. Roedd yn cynnwys gwerthusiad o brosesau a chanlyniadau, ac roedd yr ail ran ar ffurf hap-dreial wedi'i reoli. Archwilodd yr astudiaeth yr effaith yr oedd y fenter yn ei chael yn yr ysgolion hynny a oedd yn darparu brecwast o gymharu ag ysgolion rheoli nad oeddent yn darparu brecwast hyd nes y cafodd y data dilynol ei gasglu. Mae adroddiad ar y gwaith hwn ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Y prif ganfyddiadau oedd:

- Nododd plant mewn ysgolion ymyrraeth (y rhai hynny a oedd yn darparu brecwast) fod niferoedd llawer uwch o eitemau bwyd iach yn cael eu bwyta i frecwast a bod agweddau mwy cadarnhaol at fwyta brecwast nag yn yr ysgolion nad oeddent yn darparu brecwast;
- Nododd rhieni plant mewn ysgolion ymyrraeth fod nifer lawer uwch o fyfyrwyr yn cael brecwast yn yr ysgol, gyda chyfran gyfatebol is yn bwyta brecwast gartref;
- Ni nodwyd effaith sylweddol ar ganolbwyntio nac ymddygiad er i'r gwerthusiad o brosesau nodi adroddiadau cyson o newidiadau mewn dysgu ac ymddygiad yn yr ysgol.
- Mae sail dystiolaeth sy'n awgrymu bod cael brecwast yn dylanwadu ar allu gwybyddol ac ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n debygol bod y ffaith na welwyd effaith ar allu gwybyddol yn yr astudiaeth hon yn adlewyrchu'r ffaith bod hwn yn ddadansoddiad a gynhaliwyd yn yr ysgol, yr oedd nifer y plant a oedd yn cymryd rhan yn ddylanwad arno, yn hytrach na dadansoddiad a oedd yn olrhain newid mewn unigolion.

Mae nifer o bapurau sy'n amlinellu'r dulliau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth wedi'u cyhoeddi mewn cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid, ac mae papur wedi'i gyhoeddi sy'n crynhoi canlyniadau cyffredinol y gwerthusiad o'r ymyrraeth.

Mae'r amrywiaeth o ddata a gasglwyd fel rhan o'r treial yn parhau i gael ei dadansoddi, gyda CISHE yn sicrhau arian o dan y Fenter Ymchwil Atal Genedlaethol (NPRI). Bydd hyn yn cynnwys archwiliad manwl o'r cysylltiad rhwng safle economaidd-gymdeithasol, deiet a pherfformiad yn yr ysgol. Bydd y gwaith yn rhoi rhagor o wybodaeth bwysig am effeithiolrwydd y Fenter Brecwast Am Ddim a bydd yn cyfrannu at lywio datblygiad polisïau yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd y prosiect wedi'i gwblhau yn ystod haf 2011.